Adolygiad Annibynnol o adroddiadau Adran 19 ac CNC

# Cylch Gorchwyl (a gwybodaeth ategol)

**Mater**

1. Mae'r papur hwn yn darparu cylch gorchwyl i hysbysu'r Gweinidog Newid Hinsawdd ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru ar gyfer ystyried cwmpas a chyflawni ymrwymiad y Cytundeb Cydweithredu a'r Rhaglen Lywodraethu:

   *Adolygiad o lifogydd – Comisiynu adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar y llifogydd eithafol a gafwyd yn ystod gaeaf 2020-21 a gweithredu ar eu hargymhellion.*

2. Mae'r papur hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran yr adroddiadau adran 19 ynghyd â manylion perthnasol y cylch gorchwyl ar gyfer adolygiadau eraill sydd ar y gweill neu sydd yn yr arfaeth, hynny i helpu i lywio cwmpas ac amcanion yr Adolygiad Annibynnol.

**Monitro effeithiau llifogydd a gwaith dilynol**

3. Yn ystod tywydd eithafol, mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio "llinellau ffôn brys" i gofnodi'r holl ddigwyddiadau y mae'r cyhoedd, eu swyddogion eu hunain neu eu partneriaid yn y sector cyhoeddus yn rhoi gwybod iddynt amdanynt. Mae swyddogion llifogydd awdurdodau lleol yn ymchwilio i bob achos o lifogydd mewnol mewn eiddo y cânt wybod amdano er mwyn deall maint a natur y mater. Yn y camau cyntaf, gall y gwaith dilynol gynnwys galwad ffôn gan swyddog Llifogydd Awdurdod Lleol i ddeiliad y tŷ yr effeithir arno neu archwilio'r eiddo a'r ardal gyfagos. Efallai na fydd hyn o reidrwydd yn sbarduno ymchwiliad Adran 19.

4. Yn dilyn achos o lifogydd, gall Awdurdod Lleol nodi gwaith adfer sydd ei angen i seilwaith rheoli perygl llifogydd er mwyn lleihau'r perygl yn y dyfodol. Os yw'r gwaith a nodwyd yn dod o fewn ei gylch gwaith (h.y. mae'r llif yn dod o ddŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin ac ati), gall yr Awdurdod Lleol ddewis gwneud y gwaith adfer cyn gynted â phosibl. O dan yr amgylchiadau hynny, gall Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ar gyfer trwsio seilwaith sydd wedi'i ddifrodi, neu ar gyfer gwella asedau sy'n bodoli eisoes. Yn dilyn stormydd mis Chwefror 2020, er enghraifft, rhoddodd Llywodraeth Cymru £8.9m i Awdurdodau Lleol - yn ychwanegol at ddyraniad 2020-21 i awdurdodau rheoli risg - i drwsio seilwaith ac asedau llifogydd a ddifrodwyd.

**Ymchwiliadau Adran 19**

5. Mae Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (Awdurdodau Lleol yng Nghymru) gynnal ymchwiliadau ar ôl llifogydd eithafol a chyhoeddi'r canlyniadau:

   ***Local authorities: investigations***

*(1) On becoming aware of a flood in its area, a lead local flood authority must, to the extent that it considers it necessary or appropriate, investigate—*

*(a) which risk management authorities have relevant flood risk management functions, and*

*(b) whether each of those risk management authorities has exercised, or is proposing to exercise, those functions in response to the flood.*

*(2) Where an authority carries out an investigation under subsection (1) it must —*

*(a) publish the results of its investigation, and*

*(b) notify any relevant risk management authorities.*

6. Gall ymchwiliadau Adran 19 fod yn ddefnyddiol o ran deall hyd a lled effeithiau llifogydd ac i wella modelau data, a gallant ein helpu i lunio trefniadau cynnal a chadw neu waith neu fesurau lliniaru pellach. Nid oes amserlen statudol ar gyfer cynnal a chwblhau ymchwiliadau adran 19, ond mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (mis Hydref 2020) yn ei gwneud yn glir mai mater i Awdurdodau Lleol yw penderfynu ar hyd a chymhlethdod adroddiadau Adran 19 fel eu bod yn gymesur â maint y llifogydd, eu dealltwriaeth o'r materion (os deellir achos y llifogydd eisoes, er enghraifft), neu'r math o fesur adfer sydd ei angen.

7. Mae'r gofyn i gynnal ymchwiliad adran 19 yn ofyn ar Awdurdodau Lleol yn unig yng Nghymru (h.y. nid yw'n ofyn ar Cyfoeth Naturiol Cymru na Dŵr Cymru). Er nad oes trothwy statudol ar gyfer sbarduno ymchwiliad adran 19, mae'r Strategaeth Llifogydd yn nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ymchwiliadau Adran 19 gael eu cynnal os oes llifogydd wedi effeithio ar 20 neu fwy o gartrefi'n fewnol mewn un ardal. Mae'r Strategaeth Llifogydd yn ei gwneud yn glir hefyd y dylai Awdurdodau Lleol hysbysu CNC a Llywodraeth Cymru pan gaiff adroddiad ymchwiliad ei gyhoeddi.

8. Gall adroddiadau Adran 19 amrywio o ran hyd a chymhlethdod. Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig wedi cyhoeddi safon BS 85600:2017 (Asesiadau llifogydd ar ôl y digwyddiad — Canllawiau ar ymchwilio i lifogydd) i helpu Awdurdodau i reoli perygl llifogydd. Mae safon y BSI yn nodi methodoleg ymchwilio i lifogydd, ond mater i'r Awdurdod Lleol yn y pen draw yw manylder yr ymchwiliadau. Ceir enghraifft o adroddiadau adran 19 diweddar gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn Atodiad B.

9. Wrth gynnal adroddiad yr ymchwiliad, rhaid i Awdurdodau Lleol hysbysu unrhyw Awdurdodau Rheoli Perygl (RMAs) perthnasol sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd, am y lifogydd sy'n destun ymchwiliad. Mae'r Strategaeth Llifogydd yn ei gwneud yn glir bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i RMAs eraill (CNC, cwmnïau dŵr ac Awdurdodau Lleol cyfagos) gydweithio'n llawn.

10. Nid yw Awdurdodau Lleol yn llunio adroddiadau o reidrwydd ar gyfer pob achos o lif ac nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol i wneud hynny y tu hwnt i ofyniad adran 19 (h.y. pan fo'r awdurdod o'r farn ei fod yn "angenrheidiol neu'n briodol"). Mae rhai Awdurdodau Lleol yn mabwysiadu trothwy gwahanol ar gyfer sbarduno ymchwiliad

adran 19 i'r hyn a nodir yn y Strategaeth Llifogydd (gweler Tabl 1, Atodiad 1), tra bod eraill yn dewis cynnal ymchwiliadau adran 19 pan effeithir ar lai nag 20 eiddo, o gofio y gall llifogydd mewn un eiddo neu ychydig iawn ohonynt achosi niwed sylweddol, perygl i fywyd a thrawma. Mae'r penderfyniad i lansio ymchwiliad ffurfiol fel arfer yn dibynnu ar gapasiti a gallu'r tîm perthnasol a fydd hefyd yn gorfod ateb gofynion eraill gan gynnwys ymateb brys i lifogydd, arolygu asedau llifogydd, datblygu cynlluniau newydd a chyflawni swyddogaethau statudol eraill fel y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).

11. Nid oes dim i rwystro Awdurdodau Lleol rhag gweithredu a mynd i'r afael ag anghenion a risgiau cymunedol o ran atal llifogydd, waeth a gynhelir ymchwiliad adran 19 neu beidio. Nid yw Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ar gyfer cynlluniau newydd) yn rhoi arian ar sail canfyddiadau adroddiad adran 19 ffurfiol, er y gall y dystiolaeth hon fod yn ddefnyddiol wrth ystyried angen yn y dyfodol.

12. Mae'r Strategaeth Llifogydd yn cynnwys mesur penodol (21) i wella'r broses o weithredu darpariaethau adran 19: *Rydym am i adroddiadau ymchwilio Adran 19 fod yn symlach i Awdurdodau Lleol eu cynnal ac yn haws i'r cyhoedd eu deall*. Mae swyddogion y Gangen Llifogydd yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Phwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol annibynnol Cymru i wneud adroddiadau Adran 19 yn gliriach i'r cyhoedd ac yn llai beichus ar y rhai sy'n eu cynhyrchu.

**Sefyllfa ymchwiliadau adran 19**

13. Mae'r Gangen Llifogydd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau rheoli perygl llifogydd Cymru i fonitro'r ddarpariaeth, tracio problemau sy'n codi a rhoi'r help, yr arweiniad a'r cyllid sydd eu hangen. Erbyn diwedd mis Chwefror 2022, roedd y 22 Awdurdod Lleol wedi hysbysu Lywodraeth Cymru bod cyfanswm o 152 o ymchwiliadau adran 19 angen eu cynnal ers mis Chwefror 2020. Mae'r ymchwiliadau hyn yn cwmpasu nifer o lifogydd, ac nid stormydd mis Chwefror 2020 (Stormydd Ciara, Dennis a Jorge) yn unig.

14. Fel paratoad ar gyfer yr adolygiad annibynnol, mae'r Gangen Llifogydd wedi ceisio sicrhau bod yr holl adroddiadau adran 19 perthnasol y gellid gofyn amdanynt, neu y gall yr adolygiad gyfeirio atynt, ar gael. Anogwyd Awdurdodau Lleol i gwblhau eu hymchwiliadau a chyhoeddi'r canfyddiadau cysylltiedig cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai o'r Awdurdodau Lleol a gafodd eu taro galetaf yn dilyn stormydd mis Chwefror 2020 wedi blaenoriaethu gwaith atgyweirio ac adfer dros gynnal ymchwiliadau ffurfiol.

15. Dangosodd asesiadau cynnar a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol y byddai angen tua 150 o ymchwiliadau adran 19 mewn perthynas â stormydd mis Chwefror 2020. Fodd bynnag, mae'r nifer wedi gostwng ers hynny; mae nifer o awdurdodau wedi cyfuno nifer fawr o'r ymchwiliadau a nodwyd, mae rhai wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliadau ffurfiol (ar ôl cyflwyno mesurau adfer ers hynny), ac mae eraill

wedi cynyddu'r trothwy ar gyfer sbarduno ymchwiliad ffurfiol. Gallai'r penderfyniad i gynyddu'r trothwy i sbarduno ymchwiliad ffurfiol fod yn un pragmatig: nododd un awdurdod lleol i ddechrau y byddai angen 50 o adroddiadau ar wahân mewn perthynas â stormydd mis Chwefror 2020 yn unig.

16. Ar wahân i effaith gofynion rheoli perygl llifogydd, rydym yn deall bod cyfyngiadau Covid-19 a'r pwysau cysylltiedig ar lywodraeth leol wedi rhwystro llawer o ymchwiliadau adran 19 rhag cael eu cynnal. Yn benodol, roedd y cyfyngiadau ar weithio mewn mannau caeedig (i archwilio asedau draenio a llifogydd) ac ar grynhoi a thrafod â phreswylwyr wedi effeithio ar hynt ymchwiliadau yn 2020 a 2021.

17. Mae Tabl 2 (Atodiad 1) yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran yr ymchwiliadau hyn a'r adroddiadau cysylltiedig:

- 49 wedi'u cyhoeddi
- 17 wedi'u cwblhau (ond ddim bwriad gan yr awdurdod lleol i'w cyhoeddi)
- 34 yn aros am gymeradwyaeth
- 40 ymchwiliad ar eu hanner neu ar ffurf drafft
- 12 ymchwiliad heb ddechrau eto.

Mae pum Awdurdod Lleol wedi cadarnhau na fyddant yn cychwyn unrhyw ymchwiliadau adran 19.

18. Ceir manylion yr ymchwiliadau adran 19 yn ôl llifogydd yn Nhabl 3 (Atodiad 1). Mae'r rhan fwyaf o ymchwiliadau (89) wedi codi yn sgil stormydd mis Chwefror 2020. Sbardunodd Storm Christoph (Ionawr 2021) 35 o ymchwiliadau.

**Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'i ymateb i stormydd Chwefror 2020**

19. Yn dilyn llifogydd Chwefror 2020, cynhaliodd CNC ei adolygiad ei hun o'r digwyddiadau a'i ymateb, gan nodi 28 o argymhellion - Cyfoeth Naturiol Cymru / Adolygiad o lifogydd mis Chwefror 2020 (Storm Ciara a Dennis)

- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Crynodeb o Ddata Digwyddiadau Llifogydd
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Adolygiad Rheoli Digwyddiadau Llifogydd
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru: Adolygiad Rheoli'r Ystad Dir
- Llifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru:: Adroddiad Adfer yn sgil Llifogydd

Cyhoeddodd CNC asesiad naratif ar gyfer y cyhoedd am lifogydd Chwefror 2020 yng Nghymru (arcgis.com)

**Cylch gorchwyl**

20. Mater i'r adolygydd annibynnol, y Gweinidog Newid Hinsawdd ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru fydd sefydlu’r cylch gorchwyl terfynol a chytuno arno, ar ôl i'r adolygydd gael ei benodi.  Fodd bynnag, awgrymir y cylch gorchwyl canlynol i lywio'r gwaith hwn:

a) Dylai'r Adolygiad ystyried yr holl ddeunydd perthnasol a ddarperir yn yr adroddiadau adran 19 ac adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun o'r llifogydd a ddigwyddodd yng Nghymru yn ystod gaeaf 2020 a 2021, eu heffeithiau a sut y gallai hyn lywio blaenoriaethau ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol.
b) Dylai'r Adolygiad gael ei arwain gan berson annibynnol, cymwys ac awdurdodol sydd â'r grym a'r adnoddau i ysgwyddo ei gyfrifoldebau ac arwain adolygiad mewn modd diduedd a gwrthrychol.
c) Dylai'r Adolygiad ganolbwyntio'n benodol ar asesu a blaenoriaethu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau adran 19 sydd ar gael ac yn adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd ag unrhyw adroddiadau perthnasol eraill y mae'r cadeirydd o'r farn bod eu hangen (er enghraifft rhai cwmnïau dŵr) sy'n nodi argymhellion cysylltiedig ar gyfer gweithredu gan y corff perthnasol.  Dylai ystyried canfyddiadau allweddol a phryderon a rennir a nodi meysydd i'w gwella, arfer da, llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd.
d) Dylai'r Adolygiad geisio sylwadau ysgrifenedig gan randdeiliaid perthnasol, yn benodol cyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr etholedig.
e) Bydd yr Adolygiad, fel y bo'n briodol, yn cael ei lywio gan adolygiadau blaenorol mewn perthynas â llifogydd, adroddiadau perthnasol eraill, canfyddiadau Pwyllgor y Senedd a pholisi cenedlaethol, gan gynnwys, yn benodol, Strategaeth Llifogydd Cymru, gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau'r gwerth gorau am arian.
f) Bydd yr Adolygiad, i'r graddau y bo'n bosibl, yn osgoi dyblygu gwaith y canlynol:
   i. Adolygiad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCEC) sy'n archwilio'r dulliau gorau posibl o gael gafael ar gyllid a chydweithredu ag RMA er mwyn sicrhau canlyniadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
   ii. Adolygiad FCEC o swyddogaethau rheoli perygl llifogydd statudol;
   iii. Adolygiad disgwyliedig Pwyllgor Seilwaith Cenedlaethol Cymru o'r seilwaith sy'n agored i berygl llifogydd yn y tymor hir;
   iv. Asesiad disgwyliedig o 'gyflwr y genedl' gan Archwilio Cymru o’r heriau sy’n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac archwiliad dilynol o'r ddarpariaeth (ystyrir ei gwmpas gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar hyn o bryd)
   v. Adolygiad disgwyliedig Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth rheoli perygl llifogydd yng Nghymru a Lloegr.
g) Os yw'r Adolygydd o'r farn bod angen diwygio’r Cylch Gorchwyl hwn, gofynnir i’r partïon sy'n comisiynu ei ystyried.

**Is-adran Dŵr, Llifogydd a Diogelwch Tomenni Glo**
Gorffennaf 2022

# Atodiad A

**Tabl 1.  Trothwyon sbarduno ymchwiliad adran 19 ffurfiol**

| Awdurdod Lleol | Trothwy sbarduno ymchwiliad Adran 19 (nifer o eiddo â llifogydd mewnol) |
|---|---|
| Cyngor Bro Morgannwg | N/A** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | 20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Anhysbys |
| Cyngor Caerdydd | 20 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 20 |
| Cyngor Gwynedd | N/A** |
| Cyngor Sir Ceredigion | 10 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Anhysbys |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin | 20 |
| Cyngor Sir Penfro | 20 |
| Cyngor Sir Powys | N/A** |
| Cyngor Sir y Fflint | 10* |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1 |
| Dinas a Sir Abertawe | 5* |

*Dywedodd yr ALl y byddai'n diweddaru ei drothwy adrodd A19 i 20 eiddo i'w gysoni â'r Strategaeth Genedlaethol.

**Mae'r penderfyniad pryd i adrodd yn fwy amwys, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a'i effeithiau.

- Mae 11 Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu trothwy o 20 eiddo ar gyfer cyhoeddi adroddiadau Adran 19, yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol;
- Mae gan 2 drothwy is ar hyn o bryd, ond maent wedi datgan eu bwriad i'w godi i 20 eiddo pan fyddant yn diweddaru eu strategaeth rheoli perygl llifogydd leol;
- Mae 3 ALl wedi dweud ei bod yn well ganddynt beidio â defnyddio trothwy mympwyol, ond maent yn penderfynu pryd i gyhoeddi adroddiad ar sail difrifoldeb y llifogydd.
- Mae'n well gan 4 ddefnyddio trothwyon is ar gyfer cyhoeddi adroddiadau A19.
- Mae 7 Awdurdod Lleol wedi nodi eu bod hefyd yn paratoi cyfanswm o 140 o 'Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd' ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn bodloni trothwyon adrodd A, ond yr ystyrir eu bod yn dal i fod yn haeddu ymchwiliad pellach. (Yn dilyn y wybodaeth a geir yn Nhabl 2 drosodd).

## Tabl 2. Sefyllfa ymchwiliadau adran 19 (yr oedd eu hangen ers Chwefror 2020)

| Awdurdod Lleol | Statws Adroddiad Adran 19 ddiwedd Chwefror 2022 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ymchwiliad / adroddiad heb ddechrau eto | Ar ei hanner/ mewn drafft | Aros am gymerad-wyaeth | Wed'i gwblhau, (heb fwriad i gyhoeddi) | Cyhoeddwyd | Cyfanswm |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | - | - | - | - | 1 | 1 |
| **Cyngor Bro Morgannwg** | - | 3 | - | - | 2 | 5 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | - | 4 | - | - | - | 4 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | - | - | 24 | 10 | - | 34 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | - | - | - | - | 1 | 1 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | - | - | - | - | 1 | 1 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | - | 10 | 4 | - | 6 | 20 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen** | - | - | - | - | - | 0 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | - | - | - | - | - | 0 |
| **Cyngor Caerdydd** | - | - | - | - | - | 0 |
| **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** | 1 | - | - | - | 2 | 3 |
| **Cyngor Dinas Casnewydd** | 1 | - | - | - | - | 1 |
| **Cyngor Gwynedd** | - | 1 | - | 5 | 15 | 21 |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | - | - | - | - | - | 0 |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | - | - | - | - | 2 | 2 |
| **Cyngor Sir Fynwy** | - | - | 5 | - | 5 | 10 |
| **Cyngor Sir Gaerfyrddin** | - | 1 | - | - | - | 1 |
| **Cyngor Sir Penfro** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyngor Sir Powys** | 9 | - | - | - | - | 9 |
| **Cyngor Sir y Fflint** | 1 | - | - | - | - | 1 |
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | - | 21 | - | 2 | 13 | 36 |
| **Dinas a Sir Abertawe** | - | - | 1 | - | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **12** | **40** | **34** | **17** | **49** | **152** |

## Tabl 3. Ymchwiliadau adran 19 yn ôl llifogydd

| | Storm Ciara (Feb-20) | Storm Dennis | Storm Jorje | Stormydd Chwefror (pob un) | 25/02/2020 | 01/07/2020 | 17/08/2020 | 25/08/2020 | Tach 20 | Rhag 20 | Storm Christoph (Ion 21) | Maw 21 | Hyd 21 | C'swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **1** |
| **Cyngor Bro Morgannwg** | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | 4 | - | - | - | **5** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | - | 4 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **4** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | - | - | - | 25 | - | - | - | - | 4 | - | 3 | - | 2 | **34** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **1** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | **1** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | - | 19 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | **20** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **0** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **0** |
| **Cyngor Caerdydd** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **0** |
| **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** | - | 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **3** |
| **Cyngor Gwynedd** | - | - | - | 9 | 2 | 2 | - | 5 | - | - | 2 | - | 1 | **21** |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **0** |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **2** |
| **Cyngor Sir Fynwy** | - | 8 | 1 | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | **10** |
| **Cyngor Sir Gaerfyrddin** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **1** |
| **Cyngor Sir Penfro** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **0** |
| **Cyngor Sir Powys** | - | - | - | 8 | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | **9** |
| **Cyngor Sir y Fflint** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **1** |
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | 7 | - | - | - | - | - | - | - | - | 2 | 27 | - | - | **36** |
| **Dinas a Sior Abertawe** | - | 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **2** |
| **Dinas a Sir Abertawe** | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | **1** |
| **Cyfanswm** | **8** | **37** | **2** | **42** | **2** | **2** | **1** | **5** | **4** | **8** | **35** | **1** | **4** | **152** |

DRAFT